"A"

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 8fed Rhagfyr, 2025**, yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadl, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Cadeiryddes)
Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Efan Thomas, Carys E. Williams, Iwan J. Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Michael Strain

Dechreuwyd y cyfarfod gan Y Cynghorydd Elin Hughes, Is-Gadeiryddes

76. CYHOEDDIADAU'R IS-GADEIRYDDES

Nid oedd unrhyw gyhoeddiad i'w wneud.

77. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

78. CADARNHAU COFNODION 11eg TACHWEDD, 2025

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod uchod.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams gyda phawb yn cytuno).

Materion yn codi o'r cofnodion:

(1)Eitem 67 – cymal (1) Eitem 58 – Goryrru yn Sarn Mellteyrn

Adrododd Y Cynghorydd Gareth Williams ei fod wedi cysylltu unwaith yn rhagor gyda'r Cwnstabl Einir Owen ynglyn a chael aelod o'r Heddlu ddod i gyfarfod o'r Cyngor. Addawodd y Cwnstabl y byddai'n anfon y neges ymlaen ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb hyd yn hyn. Nodwyd y sefyllfa.

(2) ***Eitem* 67 – cymal (3) Eitem 62 Fandaliaeth – Ffynnon Fair, Bryncroes**

Derbyniwyd gwybodaeth y disgwylir i'r gwaith o drwsio wal Y Ffynnon gael ei wneud yn ystod yr wythnos(au) nesaf – hyn yn ddibynol ar y tywydd. Nodwyd y sylwad.

(3) Eitem 75 – Materion Ffyrdd – cymal (a) – deallwyd fod Mr. Dylan Williams, brawd Y Cynghorydd Siôn Williams, wedi torri'r goeden oedd y tyfu yn yr agoriad i bont Felin Ganol, Sarn, ac fod hyn wedi cael gwared o'r llif oedd yn sefyllfa ar draws y ffordd. Diolchwyd iddo am ei waith.

Nodwyd y sylwad.

Cadeirwyd gweddill o'r cyfarfod gan Y Cynghorydd Gwenan Griffiths, y Gadeiryddes.

79. CEISIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynwyd y ceisiadau a ganlyn:

(a) Cais C25/0808/32/CR – addasiadau i drosi'r adeilad yn dy annedd – Capel Salem, Sarn Mellteyrn.

(b) Cais C25/0889/32/AC – amodi cytundeb 2 er mwyn symud yr ystafell gawod er mwyn cael mynediad haws o'r tu allan – Lleiniau, Llangwnnadl.

Penderfynwyd cefnogi'r ddau gais.

80. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

J.A. Pozzi – Mynwent Llandegwnning	£550 + TAW (cronfa'r fynwent – drwy ddebyd uniongyrchol)
	Comin Bryncroes £1,050 + TAW (cronfa gyfredol - drwy ddebyd uniongyrchol)
	Llwybr Bach, Botwnnog £80 + TAW (cronfa gyfredol - drwy ddebyd uniongyrchol)
Cybi Cyf. – lloches bws	£3,200 + TAW (cronfa gyfredol - drwy ddebyd uniongyrchol)
Y Clarc	£420.00 siec 200876
HMRC	£105.00 siec 200877
Tyddyn Sachau – blodau/bylbiau	£120.50 + TAW siec 200878
Neuadd Goffa Sarn – cyfraniad at goeden Nadolig (gweler cofnod 72)	£ 50.00 siec 200879
Canolfan Bryncroes – cyfraniad at goeden Nadolig (gweler cofnod 72)	£ 50.00 siec 200880
Capel Rhydbach, Botwnnog – cyfraniad at goeden Nadolig (gweler cofnod 72)	£ 50.00 siec 200881
Tyddyn Sachau – barel a blodau ar gyfer safle'r lloches bws ym Meddygfa Rhydbach, Botwnnog	£ 58.82 + TAW siec 200882
Huw Gray – slab concrid o dan y barel blodau ym Meddygfa Rhydbach	£ 9.39 + TAW siec 200883

Rhoddwyd awdurdod hefyd i dalu Assura HC Cyf. am y gwaith cyfreithiol i gael gosod y lloches ar ran o dir Meddygfa Rhydbach. **Bellach mae'r taliad wedi ei wneud drwy siec 200884 am £250.00 + TAW.**

Nodyn – rhoddwyd hawl yn y Cyngor i brynu barel a blodau o Dyddyn Sachau ac hefyd slab concrid o Huws Gray i roi o dan y barel – gweler y taliadau amdanynt uchod. **Ymhellach** penderfynwyd gofyn am ganiatad y Feddygfa i gael gosod y barel wrth y lloches a bellach mae hynny wedi ei dderbyn a'r slab/barel a'r blodau yn eu lle.

81. **MATERION FFYRDD**

Penderfynwyd anfon at yr Adran Priffyrdd ynglyn a'r canlynol:

(a) angen glahau'r cwteri ar bont Plas Coch, Botwnnog.

(b) angen cael gwared o'r dŵr sydd ar draws y ffordd o Bwllmaen am Benygroeslon.

(c) angen sylw ar dwll dwfn wedi datblygu ger Pedair Croeslon, Bryncroes.

(ch)angen sylw ar dwll dwfn wedi datblygu unwaith eto ger iard Ty Mawr Capel, Bryncroes.

(d) angen glanhau'r tyllau edrych o Benygroeslon am Groeslon Siop Lwyd, Bryncroes.

(dd)gwneud ymholiadau sut mae'r ffordd ym Mhenrhos yn cael ei monitro yn ystod tywydd garw gan i aelod gael ei hun yng nghanol llif ben bore heb unrhyw rybudd o gwbl. Yr un modd holi pam nad oes goleuadau traffig ger Mynedfa i Gartref y Pwyliaid ym Mhenrhos gan fod dŵr dwfn yn croni yma hefyd.

82. **FIDEO HYRWYDDO**

Cyflwynwyd e-bost gan Alys Rees Jones o Gyngor Gwynedd yn gwahodd aelod o'r Cyngor i gymryd rhan mewn fideo hyrwyddo ar gyfer cronfa Gwynedd Ni.
Addawodd Y Cynghorydd Elin Hughes, yr Is-Gadeiryddes, y byddai hi'n barod i gymryd rhan yn hyn.

83. **CYFARFOD ARAL ARFON/DWYFOR O UN LLAIS CYMRU**

Cyflwynwyd e-bost gan Katherine Brown, Swyddog Datblygu Gogledd Cymru, Un Llais Cymru, yn atodi neges gan Catrin Thomas, y siaradwr gwadd yn y cyfarfod diwethaf.
Nododd y Clarc nad oedd wedi sylweddoli fod neges Catrin Thomas yn rhan o e-bost y Swyddog Datblygu ac ei bod wedi eu hanfon allan i'r aelodau drwy e-bost fore'r Cyngor ond ei bod yn sylweddoli nad oeddynt wedi cael amser i'w darllen. (Gweler e-bost y Clarc 8fed Rhagfyr, 2025, am 10.39 y.b.)
Penderfynwyd ystyried y dogfennau yn y cyfarfod nesaf.

84. **CYRSIAU UN LLAIS CYMRU**

Adroddodd y Clarc fod cyrsiau/hyfforddiant wedi eu trefnu gan Un Llais Cymru o Rhagfyr 2025 i Mawrth, 2026, a rhanwyd y wybodaeth i'r aelodau gyda chais am i unrhyw aelod roi gwybodaeth os yr oedd ef/hi yn dymuno cymryd rhan.
Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

Dymunodd y Gadeiryddes Nadolig Llawen i bawb